# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Llys y Waun**

**Maes y Waun**
**Y Waun**
**Wrecsam**
**LL14 5ND**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

27/04/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Llys y Waun

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | ClwydAlyn Housing Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 66 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 20 Mai 2021 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Mae'r bobl yn hapus a chânt eu cefnogi i fyw eu bywydau fel y mynnant. Caiff lleisiau'r bobl eu clywed a chaiff eu hannibyniaeth ei hyrwyddo. Mae'r staff gofal yn deall anghenion iechyd y bobl, a gwneir atgyfeiriadau amserol at y gweithwyr proffesiynol priodol er mwyn cael cyngor ac arweiniad pan fo angen. Caiff y cartref ei gefnogi gan amrywiaeth o weithwyr iechyd proffesiynol sy'n ymweld er mwyn helpu i sicrhau bod y bobl yn cael y gofal sydd ei angen arnynt i gadw mor iach â phosibl.

Darperir y gofal gan dîm o staff brwdfrydig a chyfarwydd. Ar y cyfan, mae'r ddogfennaeth gofal yn adlewyrchu'r unigolyn sy'n cael gofal, ond mae angen gwella rhywfaint o'r ddogfennaeth gofal er mwyn gwneud yn siŵr ei bod yn cael ei hadolygu mewn modd amserol a'i bod yn rhoi'r cyfarwyddyd sydd ei angen ar y staff er mwyn iddynt gefnogi'r bobl yn briodol. Mae'r cartref yn darparu amgylchedd cyfforddus i'r bobl fyw ynddo sy'n ddiogel, mewn cyflwr da, ac yn diwallu eu hanghenion. Mae'r amgylchedd yn gynnes, yn lân, ac wedi'i addurno i safon uchel. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth ac yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd. Mae systemau clir ar waith i fonitro ansawdd y gofal a ddarperir, ac mae adroddiad bob tri mis yr Unigolyn Cyfrifol a'r adolygiadau bob chwe mis o'r gwasanaeth yn cael eu cynnal ac yn fanwl.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael cymorth i sicrhau eu llesiant corfforol a chymdeithasol.  Mae'r bobl, eu perthnasau a'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol y gwnaethom siarad â nhw yn canmol y staff a rheolwyr y cartref a gwelsom staff yn helpu'r bobl mewn ffordd bwyllog gan ddangos urddas a pharch. Nid yw'r cofnodion gofal bob amser yn rhoi'r cyfarwyddyd sydd ei angen ar y gweithwyr gofal i gefnogi'r bobl yn briodol ac ni chaiff adolygiadau o ddogfennaeth gofal y bobl bob amser eu cynnal yn unol â'r rheoliadau. Gwnaethom siarad â gweithwyr proffesiynol, perthnasau'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth a'r staff a gwelsom ddogfennaeth a oedd yn dangos bod atgyfeiriadau yn cael eu gwneud at weithwyr gofal iechyd proffesiynol mewn modd amserol. Gwelsom fod gan y gweithwyr gofal wybodaeth dda am anghenion y bobl, a'u bod yn cyfeirio at y bobl mewn modd cadarnhaol. Roedd yn amlwg eu bod yn adnabod y bobl roeddent yn eu cefnogi yn dda. Cafodd hyn ei gadarnhau gan aelodau o'r teuluoedd a'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol y gwnaethom siarad â nhw. Gwelsom aelodau o'r staff yn eistedd gyda'r bobl ar sawl achlysur, yn rhyngweithio â nhw ac yn cymryd diddordeb yn eu llesiant. Roedd gweithgareddau ffurfiol ac anffurfiol yn cael eu cynnal â'r bobl drwy gydol y diwrnodau y cynhaliwyd yr arolygiad hwn, a hynny gan y cydgysylltydd gweithgareddau a'r gweithwyr gofal.

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Gwelsom y bobl yn mwynhau'r amrywiol ardaloedd sydd ar gael i eistedd ynddynt ac yn mwynhau cwmni eraill. Gwelsom fod y staff gofal yn rhyngweithio â'r bobl mewn ffordd ystyriol a'u bod yn parchu dymuniadau'r bobl. Mae dewis ar gael o ran prydau bwyd, a gwelsom fod y bobl yn cael dewisiadau amgen os nad ydynt yn hoffi'r dewisiadau ar y fwydlen. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn gallu codi a mynd i'r gwely pryd bynnag y maent am wneud hynny, a gwelsom enghreifftiau o hynny. Mae'r darparwr yn gofyn barn y bobl sy'n byw yn Llys y Waun a'r staff yn rheolaidd ac yn cynnwys y safbwyntiau hyn fel rhan o adroddiadau.

Ar y cyfan, caiff y bobl eu hamddiffyn rhag achosion posibl o niwed, camdriniaeth neu esgeulustod. Mae trefniadau cadarn ar waith ar gyfer gwirio cofnodion y staff gofal. Mae'r cofnodion hyfforddiant yn dangos bod y staff wedi ymgymryd â hyfforddiant a ddarparwyd gan y cartref ac mae set gadarn o archwiliadau rheoli ar waith sy'n sicrhau y caiff unrhyw risg ei lleihau.

Mae'r cartref yn lân, yn gynnes ac yn gyfforddus ac mae'r ystafelloedd gwely wedi'u teilwra at yr unigolion.

## Gofal a Chymorth

Ni all y bobl bob amser deimlo'n hyderus bod gan ddarparwr y gwasanaeth gynllun cywir a chyfredol ynghylch sut y dylid darparu eu gofal er mwyn diwallu eu hanghenion. Mae'r cofnodion gofal yn drefnus ac mae'n hawdd cael gafael ar y wybodaeth sydd ynddynt. Gwnaethom siarad ag aelodau o'r staff gofal a ddywedodd wrthym fod y cynlluniau personol yn rhoi digon o wybodaeth iddynt gyflawni eu rôl a gwnaethom siarad â'r bobl sy'n byw yn Llys y Waun a'u perthnasau a gadarnhaodd eu bod nhw neu eu perthynas yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Cadarnhaodd gweithiwr gofal iechyd proffesiynol hefyd fod y staff yn gwybod sut i gefnogi'r bobl. Gwelsom rai cynlluniau personol sy'n cynnig adlewyrchiad cywir o'r unigolyn ac yn rhoi digon o wybodaeth i'r staff wybod sut i gefnogi'r unigolyn. Gwelsom hefyd dystiolaeth o ddogfennaeth gofnodi, sy'n cael ei chwblhau'n briodol ac nid oes unrhyw bryderon ynghylch y meysydd hyn. Fodd bynnag, gwelsom rai cynlluniau personol nad ydynt bob amser yn rhoi arweiniad clir i'r gweithwyr gofal o ran sut y dylid rhoi gofal a chymorth i'r person. Gwelsom gynllun personol un unigolyn, a oedd yn nodi manylion am gyflwr meddygol yr unigolyn yn fanwl, ond nad oedd yn rhoi cyfarwyddyd i'r staff o ran sut i gefnogi'r unigolyn mewn perthynas â'r cyflwr hwn. Gwnaethom siarad â'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol am hyn, a dywedwyd wrthym y bu problemau â'r data ar y cynlluniau gofal electronig ac mai dyma'r rheswm dros ddefnyddio copïau papur ar y pryd. Nodwyd y byddent yn cymryd camau priodol i ymdrin â hyn. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Gwelsom fod cynlluniau personol rhai pobl wedi cael eu hadolygu yn unol â'r rheoliadau, ond nid oedd eraill wedi cael eu hadolygu'n briodol. Soniodd yr Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr wrthym am anawsterau a gafodd y gwasanaeth mewn perthynas â chadw data, a nodwyd ganddynt y byddant yn sicrhau bod cynlluniau personol yn cael eu hadolygu'n briodol. Mae hyn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Gwelsom gydberthnasau cadarnhaol rhwng y bobl a'r staff gofal gyda llawer o chwerthin ac achosion o dynnu coes cyfeillgar. Gwelsom y gweithwyr gofal yn cefnogi'r bobl mewn ffordd dyner a charedig, ar gyflymder addas i'r unigolyn. Roedd y perthnasau, y bobl sy'n byw yn Llys y Waun, a'r gweithwyr iechyd proffesiynol oll yn canmol y ffordd gadarnhaol roedd y staff yn cefnogi'r bobl. Gwelsom dystiolaeth bod atgyfeiriadau yn cael eu gwneud at weithwyr proffesiynol allanol, fel meddygon, pan fo angen, a dywedodd gweithwyr proffesiynol wrthym fod y gweithwyr gofal yn dilyn y cyngor a roddir ganddynt. Hefyd, drwy gydol yr arolygiad, gwelsom weithgareddau ffurfiol, a oedd yn cael eu cynnal gan y cydgysylltydd gweithgareddau, a gweithgareddau anffurfiol, a oedd yn cael eu trefnu gan y gweithwyr gofal.

Cynigir dewis o brydau bwyd maethlon i'r bobl. Mae bwydlen ar waith ac mae'r dewisiadau yn newid yn rheolaidd. Gwnaethom siarad â'r bobl a ddywedodd wrthym eu bod yn cael dewis ac os nad oeddent yn hoffi unrhyw beth ar y fwydlen, eu bod yn cael dewis amgen. Cadarnhaodd y staff a'r bobl y gwnaethom siarad â nhw y gallent gael opsiwn bwyd poeth i frecwast pe byddent am gael hynny. Gwnaethom arsylwi ar sesiwn gweini brecwast, a gwelsom y staff gofal yn sgwrsio ac yn cael hwyl ac yn rhyngweithio'n effeithiol. Gwelsom hefyd brofiad amser cinio mewn rhan arall o'r cartref, a nodwyd gennym fod y staff yn

rhyngweithio â'r bobl mewn ffordd wahanol i'r enghreifftiau eraill o ryngweithio a welsom yn ystod yr arolygiad. Roedd rhai o'r bobl yn eistedd yn bwyta bwyd a oedd yn edrych ac yn arogli'n flasus; ond roedd y staff gofal yn canolbwyntio ar y dasg ac nid oedd unrhyw ryngweithio ystyrlon rhwng y gweithwyr gofal a'r preswylwyr a oedd yn bwyta am y rhan fwyaf o'r cyfnod.

Caiff meddyginiaeth ei rhoi'n ddiogel, ac mae'n sicrhau bod iechyd a llesiant y bobl yn cael eu diogelu. Caiff meddyginiaeth ei chofnodi a'i dosbarthu gan aelodau o staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol. Caiff meddyginiaeth ei storio'n briodol. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod y rheolwyr yn cynnal archwiliadau meddyginiaeth rheolaidd.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n addas ar gyfer eu hanghenion. Mae pob rhan o'r cartref yn lân, yn groesawgar ac wedi'i haddurno'n dda. Mae digon o le i'r bobl allu dewis ble yr hoffent dreulio eu hamser ac yn ystod yr arolygiad, gwelsom y bobl yn eistedd yn y ddwy lolfa, yn eu hystafelloedd ac yn yr ardal fwyta. Gwnaethom edrych ar ddetholiad o'r ystafelloedd gwely. Nodwyd gennym eu bod yn gynnes ac yn lân a bod cyfleoedd i'r bobl eu personoli os byddant am wneud hynny. Mae llun o'r bobl ar ddrws eu hystafell gwely sy'n eu helpu i ddod o hyd iddi ac yn rhoi ymdeimlad o berthyn iddynt. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus yn byw yn y cartref. Gwelsom y staff domestig yn glanhau bob dydd; roedd y cartref yn lân drwy gydol dau ddiwrnod yr arolygiad. Nid oedd unrhyw beryglon yn yr ardaloedd cymunedol er mwyn gwneud yn siŵr bod y bobl yn ddiogel. Gwelsom fod y bobl yn gallu cerdded o gwmpas y cartref fel y dymunant, yn ddirwystr ac yn ddiogel.

Mae trefniadau da ar waith i sicrhau y caiff y risgiau i iechyd a diogelwch y bobl eu nodi a'u lliniaru. Gwelsom dystiolaeth bod gwiriadau a phrofion priodol yn cael eu cynnal ar gyfer ymwelwyr wrth iddynt gyrraedd. Mae clychau galw yn cael eu defnyddio er mwyn rhoi gwybod i'r staff gofal pan fydd angen cymorth ar yr unigolion. Nid yw'r clychau galw hyn yn tarfu'n ormodol ar unrhyw un. Gwelsom y cofnodion cynnal a chadw sy'n dangos bod archwiliadau o'r amgylchedd yn cael eu cynnal i nodi unrhyw broblemau ac i ymdrin â nhw, a bod y cyfarpar yn cael ei wasanaethu a'i brofi'n rheolaidd. Mae'r drysau tân yn cael eu cadw ar gau neu os ydynt ar agor, maent wedi'u cysylltu â dyfeisiau cau electronig sy'n gysylltiedig â'r system larwm tân.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi gan wasanaeth sy'n darparu nifer priodol o staff sy'n addas ac sy'n meddu ar y wybodaeth, y cymwyseddau, y sgiliau a'r cymwysterau i ddarparu'r lefelau gofal a chymorth sy'n ofynnol i alluogi'r unigolyn i gyflawni ei ganlyniadau personol. Caiff y bobl eu cefnogi gan staff gofal sydd wedi'u hyfforddi, sy'n cael eu cyflogi'n ddiogel mewn niferoedd digonol. Gwelsom fod y rheolwyr yn cynnal yr holl wiriadau gofynnol er mwyn fetio unigolion cyn iddynt gael eu cyflogi. Mae'r cofnodion hyfforddiant yn dangos bod gan y gweithwyr y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gyflawni canlyniadau'r bobl, a chadarnhawyd hynny gan y staff gofal a ddywedodd wrthym eu bod yn cael digon o hyfforddiant priodol, fel cymorth cyntaf, codi a chario a diogelu, i gefnogi'r bobl sy'n byw yn Llys y Waun. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Mae'r gweithwyr gofal a'r bobl y gwnaethom siarad â nhw yn cadarnhau bod digon o staff ar ddyletswydd. Cafodd hyn ei gadarnhau gan y cofnodion a welsom a gwelsom enghreifftiau o'r staff gofal yn eistedd ac yn sgwrsio â'r bobl drwy gydol dau ddiwrnod yr arolygiad. Mae'r staff gofal yn cadarnhau bod yr uwch-reolwyr yn cymryd materion o ddifrif. Mae'r gweithwyr gofal yn cael sesiynau goruchwylio ac arfarniadau yn unol â'r rheoliadau. Cafodd hyn ei gadarnhau gan y staff gofal y gwnaethom siarad â nhw a'r cofnodion a welsom.

Mae trefniadau ar waith ar gyfer goruchwylio'r gwasanaeth yn effeithiol, drwy brosesau sicrhau ansawdd parhaus sy'n adolygu safonau gofal a chydymffurfiaeth â'r rheoliadau ac sy'n sicrhau y caiff y wybodaeth a ddaw i law a safbwyntiau'r bobl eu defnyddio er mwyn datblygu a gwella'r gwasanaeth yn barhaus. Cynhelir adolygiad sicrhau ansawdd bob chwe mis yn unol â'r rheoliadau sy'n ystyried safbwyntiau'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth er mwyn sicrhau bod y bobl yn fodlon ar y gwasanaeth y maent yn ei gael. Gwlesom fod yr Unigolyn Cyfrifol yn cynnal ei adolygiadau bob tri mis o'r gwasanaeth yn briodol a'i fod yn llunio adroddiad manwl yn hyn o beth. Gwelsom fod yr uwch-reolwyr yn cynnal amrywiaeth gynhwysfawr o archwiliadau, fel adolygiadau o gynlluniau gofal a threfniadau rheoli meddyginiaeth, er mwyn sicrhau bod y cartref yn cael ei redeg yn effeithiol. Caiff canlyniadau'r archwiliadau hyn eu cyflwyno i'r Unigolyn Cyfrifol sy'n darparu papur ar gyfer cyfarfodydd bwrdd y cwmni. Mae amrywiaeth o bolisïau, fel polisi diogelu a pholisi ymddygiad heriol, ar waith er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn ddiogel ac fel y bwriadwyd.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 16 | Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod y cynlluniau personol yn cael eu hadolygu fel sy'n ofynnol, ond o leiaf bob tri mis. | Newydd |
| 15 | Nid yw dogfennaeth gofal y bobl bob amser yn rhoi digon o gyfarwyddyd i'r staff allu cefnogi'r unigolyn yn briodol a gallai hyn beri risg o niwed, esgeulustod neu gamdriniaeth i'r unigolyn ac eraill. | Newydd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 01/08/2023